

SAFLE TRAWSFYNYDD

COFNODION YR UNFED CYFARFOD AR BYMTHEG O'R GRŴP RHANDEILIAID SAFLE A GYNHALIWYD YN Y GANOLFAN GYNADLEDDA A CHYNEFINO DDYDD LLUN 5 RHAGFYR 2011

YN BRESENNOL

Y Cyng. J Isgoed Williams Cadeirydd

Safle Trawsfynydd

Mr Dave Wilson	Cyfarwyddwr y Safle
Mr Richard Cowell	Magnox
Mr W Walker Jones	Magnox
Ms Linda Clegg	Magnox
Mr Bryan Halsey	Magnox
Mr Raymond Parry	Magnox
Mr Kevin Titley	Magnox
Mr H Madog Jones	Magnox
Mr A M ^c Ateer	Magnox
Mr John Idris Jones	Magnox
Mr Steve Payne	Magnox
Mr Ian Edwards	Magnox

Yr Awdurdod Datgomiynu Niwclear

Ms Amanda French

Cyngor Gwynedd

Ms Shirley Huws
Y Cyng. Thomas Ellis

Cynghorau Tref a Chymuned

Y Cyng. Beryl Williams	Cyngor Tref Ffestiniog
Y Cyng. Dafydd Watts	Cyngor Cymuned Llanfrothen
Y Cyng. D Morris Jones	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth
Y Cyng. John Richards	Cyngor Cymuned Talsarnau

Grwpiau a Mudiadau Cymunedol

Mr Idwal Williams	Traws-Newid
Mr Iolo ap Gwynn	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mr Aled Sturkey	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mr Keith O'Brien	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Arsyllwyr

Mr Alan Hall	Dŵr Cymru
Mrs Catrin Roberts	Llywodraeth Cymru

Mr Chris Kemp	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear)
Mrs G Pettifor	Ymwelydd
Mr Gwynfor Owen	Cyfieithu – Cymen
Miss Elen Williams	Cofnodion

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Mr Elfyn Llwyd	Aelod Seneddol
Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas	Aelod Cynulliad
Mr Paul Kennedy	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Mr David Finchett	Magnox
Mr Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Yr Arolygydd M Ellis	Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru
Mr Dafydd Jarrett	NFU Cymru

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys dau wyneb newydd a fyddai'n dod i ddweud gair neu ddau yn nes ymlaen – Mr Richard Cowell a Mr Steve Payne.

2. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2011

Trafodwyd ambell beth ynglŷn ag eitem 5.12 ar y cofnodion diwethaf. Roedd ambell beth ddim yn gwbl glir, ac anghysondebau posib o ran y cwestiynau a'r atebion. Teimlwyd nad oedd bob amser yn glir pwy oedd yn gofyn y cwestiwn a phwy oedd yn ateb, felly penderfynwyd y byddai'n syniad da i unigolion ddweud eu henwau'n glir cyn gofyn cwestiwn er mwyn gallu nodi'r enw.

Fodd bynnag, dywedodd y Cadeirydd nad oedd y mater hwn yn tansilio'r cofnodion nac yn eu gwneud yn anghywir. Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir, gyda Mr Idwal Williams yn cynnig a'r Cyng. John Richards yn eilio.

3. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2011

Holodd y Cyng. Beryl Williams a oedd y ~~ffigurdyddiad~~ 2026 yn gywir yng nghwestiwn 5.12 d, ~~ynteu-yntau~~ ai 2016 oedd y ~~ffigur dyddiad~~ i fod. Eglurwyd y byddai'r cyfnod Gofal a Chynnal a Chadw yn dod i ben yn 2016, a'r gwaith i gyd yn cael ei gwblhau erbyn 2026. Dywedwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei drafod ymhellach gan Gyfarwyddwr y Safle yn nes ymlaen.

4. Anerchiad y Cadeirydd

4.1 Ar 15^{fed} o Fedi 2011, cynhaliwyd Cyfarfod Trosolwg llwyddiannus iawn, ac ar yr 28^{ain} o Fedi cafwyd cyfarfod safle buddiol gyda'r Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CORWM). Roedd y Cadeirydd wedi bod yn siarad ag un o'r aelodau, a oedd yn fodlon iawn â'r ymweliad, ac yn teimlo bod Traws yn flaenllaw iawn.

~~4.14.2~~ Ar 23^{ain}/24^{ain} o Dachwedd, roedd cyfarfod llwyddiannus wedi cael ei gynnal ym Manceinion, lle bu trafodaeth helaeth am ryddhau tiroedd o amgylch safleoedd a rheoli gwastraff. Roedd y Cadeirydd a swyddogion yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)

Formatted: Bullets and Numbering

yn teimlo'n gyffredinol nad oedd digon o gyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod y claddu cenedlaethol, ac roeddent yn awyddus iawn i gyfarfodydd gael eu cynnal er mwyn i'r cyhoedd ddeall yr oblygiadau.

4.14.3 Cyhoeddodd y Cadeirydd bod Richard Foxhall wedi gadael Traws ac y byddai'n dechrau gweithio gyda Horizon ar Ynys Môn y bore hwnnw. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddarllen llythyr gan Richard Foxhall, a oedd yn awyddus iawn i ddiolch i'r grŵp am eu cyfeillgarwch ers mis Hydref 2006. Dywedodd ei fod wedi cael pleser yn eu gwasanaethu, a'i fod yn gobeithio iddo allu helpu'r cymunedau lleol. Roedd yn edrych ymlaen at ei swydd newydd, ond yn teimlo'n drist wrth adael Traws ar ôl gweithio ar y safle am bedair blynedd, ac yn teimlo y byddai wedi mwynhau bod yno pan oedd safle Traws yn ei anterth. Gan gofio y bydd y safle'n cau ym mis Rhagfyr 2016, pwysleisiodd ei bod yn bwysig i bawb gydweithio yn y cyfnod yn arwain at hynny, gan ddenu busnesau newydd i'r ardal, a helpu ein gilydd i ddatblygu etifeddiaeth i'r bobl ifanc.

4.14.4 Roedd Edwina Hart a'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas wedi ymweld â'r safle, a darllenodd y Cadeirydd gwestiwn atodol yr oedd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas wedi'i ofyn i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn y Senedd yng Nghaerdydd: Weinidog, gwyddoch fy mod yn gwerthfawrogi eich ymweliad yn gynharach eleni â Bwrdd Trosolwg Trawsfynydd, yr wyf yn ei gadeirio. Wrth ichi ystyried rhaglen o barthau menter at y dyfodol, a wnewch chi gadw mewn cof a phwysleisio'r ffaith i'ch swyddogion, pan fyddwch yn blaenoriaethu, fod argyfwng economaidd difrifol yn wynebu'r safle hwn oherwydd nifer y peirianwyr llawn sgiliau sydd wedi gweithio yno am gyhyd? Mae angen gweithredu ar fyrder er mwyn creu cyflogaeth newydd yn y safle hwn.

Ateb Edwina Hart oedd: Yn yr un modd ag yr wyf wedi gofyn i fy swyddogion baratoi cyflwyniad ar gynigion manwl ar gyfer Newport Unlimited a Dinas Casnewydd, yr wyf hefyd wedi gofyn iddynt wneud yr un fath yng nghyswllt y safle hwnnw.

4.5 Gofynnir dro ar ôl tro beth fydd yn digwydd i safle Traws dros y blynyddoedd nesaf, a beth sy'n digwydd o ran prentisiaethau ac yn y blaen. Ar hyn o bryd, mae tri hogyn sy'n Gymry Cymraeg o ardal Dyffryn Nantlle yn y drydedd flwyddyn o'r cynllun ac yn eu hail flwyddyn ar y safle; dechreuodd dau hogyn Cymraeg arall ar y safle fis Medi eleni, un o Lanystumdwy a'r llall o Faentwrog; cafodd y cohort diweddaraf ei hysbysebu eleni yn ystod mis Awst, ac yn dilyn gofynion y Rhanddeiliaid yng nghyfarfod mis Mehefin, hyrwyddwyd y cynllun yn eang, gan gynnwys yn y Cambrian News, y Daily Post, a'r Caernarfon & Denbigh Herald. Er y gofynnwyd i Goleg Menai, sy'n rhedeg y cynllun, a oedd unrhyw bobl ifanc leol wedi cael eu derbyn ar y cynllun eleni, nid oedd ateb wedi cyrraedd hyd yma; nid oedd yn bosib rhoi gwybod i ysgolion a cholegau lleol am y cynllun ar y pryd gan ei bod yn wyliau'r haf; mae'r cynllun yn cael ei hyrwyddo'n ehangach drwy Gyrfa Cymru.

4.6 O ran cymorth ariannol i gymunedau lleol, bydd y drefn yn newid yn sylweddol ym mis Ebrill 2012. Mae mewnbyn lleol yn hanfodol ar gyfer y broses. Bydd y safle yn dal i gael £10,000 o arian EnergySolutions i'w rannu mewn symiau cymharol fach.

4.64.7 O ran gwaith i'r gweithlu ar ôl 2016, mae angen pwyso am atebion. Roedd cyn Gyfarwyddwr y Safle wedi gwneud addewidion, a bu sôn am fysiau i drosglwyddo gweithwyr lleol i Ynys Môn ac yn ôl, ond bellach mae'n debyg na fydd nesa peth i ddim gwaith i weithlu Traws yn y gwaith o ddatgomisiynu Wylfa.

Formatted: Bullets and Numbering

4.64.8 O ran gostwng uchder, mae'n bwysig iawn i'r Rhanddeiliaid bwysu i gychwyn y gwaith hwn pan fydd y gwaith adennill gwastraff wedi dod i ben. Mae hefyd yn bwysig i bawb sylweddoli y bydd y gwaith adennill gwastraff yn gorffen tua blwyddyn cyn mis Rhagfyr 2016 (ac efallai cyn hynny), a dyna pryd bydd y rhan helaethaf o swyddi'n cael eu colli. Bydd angen cefnogaeth wleidyddol i bwysu ar yr NDA i newid ei strategaeth.

4.64.9 O ran colli swyddi, gan gofio bod cyn lleied o amser ar ôl, mae angen gofyn yn rheolaidd am gael gweld y cynllun sy'n dangos yn fanwl pryd bydd y lefelau cyflogaeth yn gostwng, fesul blwyddyn/chwarter/mis, ac o faint.

4.64.10 Cymorth i ysgolion – gan fod tîm Cyfathrebu'r safle wedi chwalu, pa gymorth fydd yn cael ei roi i ysgolion ac i'r sector addysg drwy gyfrwng y Gymraeg? Yn y cyd-destun hwnnw, rydym yn deall bod yr iaith Gymraeg yn mynd i gael ei chydabod.

4.64.11 Rhoddodd Mr Idwal Williams adroddiad ar gyfarfod yr oedd wedi bod ynddo'n ddiweddar yn Llundain, ar ran y Cadeirydd. Neil Baldwin oedd wedi galw'r cyfarfod, ac roedd Jonathan Jenkin yn bresennol hefyd. Roedd pawb wedi cael cyfle i sôn am yr orsaf yr oedd ynt yn ei-eghrynrychioli. Bu trafodaeth am Dungeness a Wylfa, ac am gladdu gwastraff niwclear yn genedlaethol hefyd, gyda'r Llywodraeth yn bwriadu cyflymu'r broses – 2029 yw'r dyddiad diweddaraf ar gyfer hynny. Dywedodd Mr Idwal Williams fod croeso i unrhyw un gysylltu ag ef i gael rhagor o wybodaeth.

4.64.12 Gofynnwyd beth oedd ystyr y dyddiad mewn gwirionedd, ac arweiniodd hyn at drafodaeth am Allerdale a Copeland, y ddau mewn Parc Cenedlaethol, a'r unig ardaloedd i roi eu henwau ymlaen yng nghyswllt claddu gwastraff cenedlaethol. Dywedodd y Cadeirydd fod angen i'r Llywodraeth roi gwybod i randdeiliaid ac i bawb arall beth mae hyn yn ei olygu, a beth yw'r manteision a'r anfanteision. Mae'n golygu gwaith i oddeutu 1500 o bobl am flynyddoedd lawer. Pe bai grŵp o Drawsfynydd yn galw cyfarfod i drafod y mater, byddai'r NDA yn talu am hynny, ac ar ddiwedd y dydd, byddai'n bosib tynnu'n ôl – mae'r amod honno ym mandad y Llywodraeth i'r NDA.

5. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Diolchodd Mr J Isgoed Williams i bawb ae bu iddo ymuno â gweddill y grŵp wth i Mr Dave Wilson, Cyfarwyddwr y Safle, ofyn a oedd cynnig am Gadeirydd. Cynigodd Mr Idwal Williams fod Mr J Isgoed Williams yn cael ei ail-ethol, a chafodd y cynnig hwnnw ei eilio gan y Cyng. John Richards. Dychwelodd Mr J Isgoed Williams i'w sedd a diolch i'r grŵp am y fraint. Roedd yn teimlo ein bod yn wynebu amseroedd llawn pryder, wrth i'r broses ddatgomiynu ddod i ben, ac acti, ond roedd yn gobeithio am y gorau ac yn edrych ymlaen gyda diddordeb at ddatganiad y Gweinidog.

Aeth y grŵp ymlaen i ethol Is-gadeirydd. Dywedodd y Cadeirydd fod Mr Idwal Williams wedi bod yn ddirprwy hynod ffyddlon a oedd bob amser yn barod i'w helpu a'i gefnogi, a diolchodd iddo am ei waith. Cynigodd y Cyng. Thomas Ellis bod Mr Idwal Williams yn cael ei ail-ethol yn Is-gadeirydd, a chafodd y cynnig hwnnw ei eilio gan y Cyng. John Richards.

6. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

6.1 Rhoddodd Mr Dave R Wilson, Cyfarwyddwr y Safle, gyflwyniad ynghylch cyrraedd cyflwr Gofal a Chynnal priodol erbyn mis Rhagfyr 2016.

~~6.46.2~~ O ran diogelwch, doedd prin ddim byd wedi digwydd yn y flwyddyn a fu. Roedd un person wedi torri ei fawd ac wedi gorfod cael pwythau, ac roedd hyn yn egluro'r ffaith bod y ffigur ar gyfer Cyfanswm yr Achosion a Gofnodwyd dros y 12 mis diwethaf yn 0.18.

Formatted: Bullets and Numbering

~~6.46.3~~ Rhoddwyd amlinelliad o amserlen ar gyfer y Rhaglen:

Cyrraedd y Cyfnod Gofal a Chynnal – Rhagfyr 2016

Cyfnod Gostwng Uchder – 2020-26

Cyfnod Clirio'r Safle'n Derfynol – 2076-2085.

6.4 Dyma'r ffigurau ariannol:

Gwerth Gwaith ar y Llinell Sylfaen – Oddeutu £84k

Gwerth Gwaith a Wnaed Hyd yn Hyn (Perfformiad yn erbyn y Llinell Sylfaen) – £45,798

Cost Wirioneddol Hyd yn Hyn – £45,397

6.5 Dangoswyd sleidiau o sut mae'r safle'n debygol o edrych yn 2026. Erbyn hynny, ni fyddai angen prin ddim goruchwyliaeth ar y safle, a byddai gwaith rheoli'n cael ei gynnal o ganolfan arall.

~~6.56.6~~ Mae 1743 o ddrymiau'n cael eu storio dros dro, cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r Storfa Gwastraff Lefel Ganolradd, ac rydym yn edrych ar oddeutu 2000 o ddrymiau i gyd yn ystod y broses Gofal a Chynnal.

Formatted: Bullets and Numbering

~~6.56.7~~ Roedd y gwaith o gapio'r toeau wedi mynd rhagddo'n llwyddiannus ac yn gynt na'r disgwyl, ac wedi golygu 850m³ o goncrid, 500 tunnell o ddu a 325,912 o oriau gwaith.

6.8 O ran y paratoadau ar gyfer y storfeydd diogel, er bod pethau'n edrych yr un fath o'r tu allan, mae pethau'n edrych yn bur wahanol y tu mewn. Roedd gwaith wedi mynd rhagddo ar y to ac i gael gwared ar asbestos, ac roedd lifftiau a grisiau wedi cael eu hadnewyddu. Roedd llawer o waith wedi'i wneud er mwyn gwneud yn siŵr bod y safle'n ddigon da.

~~6.86.9~~ O ran Gweddillion Elfennau Tanwydd (FED) – Adfer a Mewngapsiwleiddio; mae'r gwaith ar Gât Peirianeg 4 i fod i gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2011; cwblhawyd gwaith Datgymalu FED y rhan Ogleddol ym mis Gorffennaf 2011, a bydd gwaith sifil yn dechrau tua diwedd 2011.

Formatted: Bullets and Numbering

6.10 O ran Cyfleusterau Trin Malurion a Storio Magnox, rhagwelir y bydd y llwyth FED cyntaf yn barod ddechrau 2013, ac y byddai'r gwaith symud yn mynd rhagddo drwy gydol 2013. Roedd pedwar drwm wedi cael ei anfon i'w ailgylchu, ond nid oedd prosesu 100 o ddrymiau yn y ffordd hon yn mynd i weithio o safbwynt economaidd, nac o ran cynaliadwyedd. Felly, mae Dungeness yn mynd i brosesu'r 100 drwm – bydd hyn yn darparu gwaith ychwanegol ar gyfer y safle hwnnw am dipyn o flynyddoedd, sy'n beth da iddyn nhw, ac mae'n golygu na fydd Trawsfynydd yn gorfod delio â'r 100 drwm hynny.

~~6.106.11~~ O safbwynt Ponds, cwblhawyd rhan gyntaf Pas 2 yn llwyddiannus ym mis Medi 2011, ac roedd opsiynau'n cael eu hadolygu ar gyfer y cyflwr terfynol, drwy gynnwys rheoleiddwyr, Asiantaeth yr Amgylchedd ac ati, gyda'r nod o gyflawni hynny.

Formatted: Bullets and Numbering

~~6.106.12~~ Roedd llawer o waith wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r Gwastraff Lefel Ganolraddol, ac eglurodd D Wilson pa mor bwysig a defnyddiol yw robotiaid ar gyfer y gwaith hwn.

~~6.106.13~~ Mae'r gwaith datgomisiynu o flaen y targed.

~~6.106.14~~ Dyma'r ffigurau o ran Cyflogaeth:

	Cyfanswm Cyflogaeth	798
Staff	195	

Asiantaeth/CSW	135
Contractwyr	468
Cyfanswm gyda chod post LL	425

(Nid yw pob contractwr yn gweithio'n llawn amser ar y safle ac mae nifer y contractwyr yn newid wrth i brosiectau gychwyn a dod i ben)

Eglurodd Mr D Wilson fod y safle'n prysuro, a'u bod yn edrych ar gyflogi'n lleol, gan annog contractwyr i gyflogi gweithwyr lleol pryd bynnag y bo modd.

- 6.15 O ran materion economaidd-gymdeithasol, cyfeiriodd Mr D Wilson at gynllun Llundain Dyfodol, sydd wedi cael nawdd gan yr NDA ac o Ewrop. Bydd y rhaglen, sy'n edrych ar y dyfodol y tu hwnt i Magnox, yn cael ei lansio ymhlith staff ym mis Ionawr 2012, gyda digwyddiadau ar y gweill ym mis Ionawr ac ym mis Chwefror. Byddai aelod o staff dros dro yn gweithio yn Nhrawsfynydd ac yn Wylfa i gynorthwyo i weinyddu'r broses, i helpu i gyfeirio pobl, ac i fod yn gyfrifol am fannau gwybodaeth. Roeddent hefyd am gynnal arolwg staff fel rhan o'r broses meincnodi.
- 6.16 Mae'r NDA wedi bod yn edrych ar wahanol ffyrdd o ddsbarthu arian a blaenoriaethu, a byddai gan Magnox fwy o reolaeth dros y broses ddyrannu.
- 6.166.17 O ran ymweliadau, roedd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, Edwina Hart a CORWM wedi ymweld â'r safle. Mae'r ymweliadau hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn, a da o beth oedd gweld pobl o Lywodraeth Cymru yn dod i weld Traws. Roedd Edwina Hart ei hun wedi dweud bod gweld Traws yn gweithio wedi gwneud gwahaniaeth.
- 6.18 Yn gryno, roedd perfformiad o safbwynt diogelwch a'r amgylchedd wedi bod yn dda, roedd prosiectau mawr yn datblygu'n dda, ac roedd ymrwymiad parhaus gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

6.186.19 Cwestiynau

- O ran y Storfa Gwastraff Lefel Ganolradd, a fydd y storfa'n cael ei defnyddio i'w chapasiti llawn?
Mr D Wilson – byddai rhywfaint o le ar ôl, ond mae'n anodd dweud faint yn union gan fod angen tynnu pethau allan a chymysgu ar gyfer pecynnu ac ati. Roedd yn edrych ar ffigur o oddeutu 10% o bosib.
- Y Cyng. Beryl Williams – O ran y barrau atgyfnerthu yn y waliau, beth oedd hanes y rhain pan oedd yr adeilad yn cael ei godi'n wreiddiol?
Mr D Wilson – Ar ôl edrych yn y craciau yn y waliau, daeth yn amlwg bod rhai barrau wedi torri, a bod hyn wedi digwydd dro yn ôl. Diwedd y gân yw, dydyi pethau ddim fel y dylen nhw fod, felly rydym wedi mynd ati i atgyfnerthu'r strwythur gyda'r bwriad o wneud yn siŵr bod popeth yn ddiogel tan 2020.
- Y Cyng. Beryl Williams – Yn 2016, does dim golwg o'r is-orsaf, a oes unrhyw gynnig wedi'i wneud i gael gwared arni?
Mr D Wilson – Does dim bwriad i wneud dim â'r is-orsaf, ac mae'n deg tybio y bydd yn dal yno.
- Y Cyng. John Richards – Fe sonioch yn y cyflwyniad am arbrofion ar y drymiau 1803, allwch chi ddweud rhagor wrthym?
Mr D Wilson – O ran y drymiau, mae'r safle wedi bod yn gwneud rhai newydd ac wedi bod yn edrych ar hen rai er mwyn gwneud yn siŵr bod y rheini sy'n cael eu

Formatted: Bullets and Numbering

Formatted: Bullets and Numbering

llenwi yn ddiogel i'w codi. Mae llwythi 20 tonnelli wedi cael eu rhoi ynddynt i wneud yn siŵr eu bod yn iawn, felly does dim problemau o ran delio â'r rheini sy'n llawn.

- e. Y Cyng. John Richards – Yn dilyn cwestiwn 5.12 fis Mehefin diwethaf ynghylch brasnaddu, a'r hyn a ddywedwyd heddiw ynglŷn â FED, a gawn ni ateb perthnasol i'r cwestiwn hwnnw?
Mr D Wilson – O ran brasnaddu, mae gennym linell sylfaen ac ni fydd hyn yn newid y dyddiad.
- f. Mr Iolo ap Gwyn, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri – Yng nghyd-destun cyflogaeth, a gweithwyr gyda chod post LL yn arbennig, mae LL yn cynrychioli ardal eang iawn, gryn bellter o Drawsnydd. A yw'n bosib cael data ynghylch o ble mae pobl yn dod er mwyn gweithio yma?
Mr D Wilson – Mae'n siŵr bod y manylion gennym yn barod, a'i fod yn fater o weld beth gellir ei gasglu a'i roi at ei gilydd. Byddai'n golygu mwy o waith na dim ond gwasgu botwm, ond does dim rheswm pam na fyddai'n bosib dod o hyd i'r wybodaeth.
- g. Mr Iolo ap Gwyn – Mae gwaith yn hollbwysig er mwyn diogelu'r ardal ar gyfer y dyfodol. Mae'n gyfnod economaidd arswydus – ydy hi'n bosib y bydd hyn yn effeithio ar gyllid yr NDA?
Ms Amanda French – Mae'r NDA yn cael ei ariannu gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae arian wedi'i dderbyn am bedair blynedd, a'r flwyddyn hon yw'r flwyddyn gyntaf o'r pedair, ond er bod arian wedi'i ddyrannu mae bob amser yn mynd i fod yn anodd.
- h. Pan ddaw 2016, ydych chi'n mynd i glirio'r swyddfa ynteu a fydden nhw'n cael eu gadael yn segur?
Mr D Wilson – Byddai'r bloc o swyddfeydd newydd yn cael eu gadael, ond byddai'n bosib gadael y swyddfeydd yn segur am gyfnod a'u hadnewyddu.
- i. Mr J Isgoed Williams – Mae'r cwestiwn hwn yn cael ei ofyn yn gyson gan y cyhoedd, o ran yr amserlen ar gyfer gostwng uchder. Rydw i'n bersonol wedi bod yn gysylltiedig â hyn ers 52 o flynyddoedd, ac rwy'n methu deall faint sy'n cael ei wario ar gynnal a chadw'r safle ar y cam hwn. Oni fyddai o fudd i'r NDA aberthu nawr er mwyn arbed arian ar gyfer 2026? Fe fydden nhw'n arbed miliynau. Beth mae'r NDA yn ei ennill drwy gynnal a chadw hyd at 2026?
Mr D Wilson – Mae'r gwaith atgyweirio strwythurol yn mynd rhagddo i gadw'r safle mewn cyflwr da hyd at 2016, a dim ond beth sy'n rhaid rydych chi'n ei wneud.
Ms Amanda French – fel rhan o gynllun cyffredinol Magnox, mae gwaith ambell safle, ee Sizewell a Hinkley, wedi cael ei arafu er mwyn i safleoedd fel Traws allu parhau i weithredu. Ar hyn o bryd, bydd y safleoedd eraill yn canolbwyntio ar bethau eraill gan fod proffil Traws yn uwch. Ychwanegwyd bod 30 mlynedd wedi cael ei thynnu oddi ar raglen Magnox drwy wneud hyn.
- j. Y Cyng. T Ellis – Gan mai dim ond 2011 ydy hi, rwy'n bryderus am gyflwr y safle erbyn 2020. Bydd y sefyllfa'n waeth ac yn ddrytach erbyn hynny. Roeddech chi'n sôn am y to ac am asbestos, beth yn union yw'r broblem asbestos?
Mr D Wilson – [Eglurwyd nad oes gan yr adeiladwaith ddim i wneud a Cadarnhawyd nad oes a wnele'r strwythurau ddim oll â chysgodi ymbelydredd, a bod y gwaith yn](#)

~~cael ei gynnal i ar gyfer atgyweirio cyflwr yr~~ adeiladau yn mynd ymlaen eu hunain.
Roedd llawer o waith glanhau wedi cael ei wneud ~~dro beth amser~~ yn ôl, ac ni ddarganfyddwyd unrhyw oedd dim asbestos yn yr awyr. Fodd bynnag, o ganlyniad i weithio o fewn adeilad oedran Traws, gan fod asbestos wedi ei gladdu o fewn yr adeiladwaith, pan fydd arwynebau yn cael eu haflonyddu gall asbestos ddod yn amlwg, pan rydych chi'n tarfu ar arwynebau, fe allwch chi gael asbestos, sydd wedi'i gladdu yn y strwythur fwy neu lai. Dyna beth sy'n digwydd wrth weithio mewn adeilad oed Traws. Holwyd beth sy'n digwydd i'r asbestos, a dywedwyd ei fod yn cael ei gludo i safle td rwyddedig.

7. Adroddiad Ffisegwr Iechyd y Safle

Mr Kevin Titley oedd yn gofalu am yr adroddiad, ac roedd yr adroddiad ar gael yng nghefn yr ystafell.

8. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghori ar Gynllunio Argyfwng

Mr Kevin Titley oedd yn gofalu am yr adroddiad, ac roedd yr adroddiad ar gael yng nghefn yr ystafell.

9. Adroddiad gan yr Arolygiaeth Gosodion Niwclear

9.1 Croesawyd Mr Chris Kemp i gyflwyno ei adroddiad ar y chwarteri diwethaf.

9-19.2 Roedd digwyddiad cynllunio brys wedi cael ei gynnal ym mis Gorffennaf, ac roedd hwnnw'n cynnwys arddangosiad a rhaglen o ymarferion ar raddfa fawr. Roedd yn destun siom nad oedd y gwasanaeth ambiwlans na'r gwasanaeth tân ac achub wedi gallu cymryd rhan, ond dywedodd wrth y grŵp y byddai'r ymarfer nesaf yn cael ei gynnal ar ôl oriau gwaith arferol er mwyn gallu cynnwys y gwasanaethau hyn.

9-19.3 Cynhaliwyd arolygiad eang ym mis Gorffennaf, ac roedd yn fodlon â'r trefniadau o ran rheoli gwastraff.

9-19.4 Roedd y gwaith atgyweirio wedi cael ei archwilio, a thrafodaethau wedi cael eu cynnal. Roedd Mr Chris Kemp yn cytuno nad oedd y waliau'n destun bygythiad o safbwynt ymbelydredd, ond pe bai panel o un o'r waliau'n dod yn rhydd, fe allai effeithio ar adeilad lle byddai ymbelydredd yn berthnasol. Dywedodd fod hwn yn ddarn helaeth o waith.

9-19.5 Ym mis Hydref, roeddent wedi bod yn edrych ar ymchwilio i brosesau, a chadarnhawyd bod gan y safle system dda ar waith i wneud hynny.

10. Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd

Nid oedd cynrychiolaeth nac adroddiad.

11. Adroddiad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Nid oedd cynrychiolaeth, ond roedd adroddiad wedi cael ei ddarparu.

12. Unrhyw fater arall

12.1 Daeth Ms Amanda French o'r NDA i drafod un neu ddau o bwyntiau. Soniodd am ymddiswyddiad Tony Fountain, y Prif Swyddog Gweithredol, a hysbysodd y grŵp nad oedd neb arall wedi cael ei benodi i'r swydd hyd yma. Mae system goleuadau traffig wedi

Formatted: Bullets and Numbering

cael ei rhoi ar waith ar y wefan. Bydd y system yn dangos sut hwyl mae Traws yn ei chael arni, a bydd yn cael ei diweddarau bob chwarter. Mae'r Cynllun Busnes Drafft wedi cael ei gyhoeddi ac ar gael i ymgynghori arno. O ran datblygiad y safle, mae Traws wedi gweld llawer o weithgarwch, ac mae'n parhau i ddatblygu.

~~12.1~~12.2 Croesawyd Mr Richard Cowell, un o aelodau panel Bwrdd Trosolwg Traws, i roi cyflwyniad ar Llundain Dyfodol. Diolchodd i Gyfarwyddwr y Safle am grybwyll y rhaglen yn gynharach. Eglurodd mai pwrpas y rhaglen yw datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol, ac mai'r elfennau pwysicaf i'w hystyried yw'r bobl sy'n gweithio yn y safleoedd hyn – pobl sy'n meddu ar lawer iawn o sgiliau. Mae'r rhaglen wedi cael ei sefydlu ar y cyd rhwng yr NDA, Cyngor Sir Ynys Môn a Gwynedd a Llywodraeth Cymru drwy gyfrwng Môn a Menai. Maent wedi cael £4.2 miliwn am y tair i bedair blynedd nesaf. Bydd pethau'n digwydd dros y mis nesaf – sesiynau cyflwyno ac yn y blaen. Dim ond hyd at fis Mawrth 2014 yr oedd y cyllid ar gael yn wreiddiol, ond nawr bydd cyllid ar gael hyd at fis Mawrth 2015, sy'n bendant yn beth da.

Cwestiynau

- a. Holodd y Cyng. Beryl Williams sut gallai'r prosiect helpu pobl ifanc, gan ystyried bod cost addysg i bobl ifanc yn aruthrol y dyddiau hyn.
Pwysleiswyd bod y prosiect hwn wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer gweithwyr Traws a Wylfa.
- b. Gofynnwyd a oedd ffordd o wybod sut mae'r prosiect yn datblygu.
Atebodd Mr R Cowell y byddai'n fwy na bodlon rhoi cyflwyniad i'r grŵp yn rheolaidd er mwyn eu diweddarau.

12.3 Atgoffwyd pawb fod dogfennau ar gael ar y bwrdd.

~~12.3~~12.4 Dywedodd y Cadeirydd fod Michelle Humphreys wedi bwriadu dod i egluro'r system newydd ar gyfer gwneud cais am gymorth economaidd-gymdeithasol, ond gan nad oedd hi yn y cyfarfod, fod Mr Steve Payne, Swyddog Cyfathrebu Magnox, am ddweud gair neu ddau. Fel yr eglurodd, roedd Mr D Wilson wedi rhoi eglurhad yn gynharach, a bod yr eglurhad hwnnw wedi rhoi sylw i'r rhan fwyaf o'r pwyntiau, ond pwysleisiodd y byddai'r broses o wneud cais yn electronig y flwyddyn nesaf, a bod gwybodaeth a chanllawiau ar gael.

Cwestiynau

- a. O ran ceisiadau am gymorth, holodd Mr J Isgoed Williams sut byddai modd sicrhau bod y ceisiadau'n cael cynrychiolaeth deg. Er enghraifft, pe ceid cais o ardal Trawsfynydd, a fyddai'r panel yn meddu ar wybodaeth am yr ardal ac am y bobl? Fel arall, mae'n bosib y byddai grwpiau'n colli allan.
Atebodd Mr Steve Payne na allai ef yn bersonol ateb y cwestiwn hwnnw, ond y byddai'n gallu dod o hyd i'r atebion. Dywedodd Mr D Wilson hefyd y byddai'n bosib gwneud yn siŵr bod pawb yn cael y cymorth priodol.
- b. Pwysleisiodd Mr J Isgoed Williams unwaith eto bod angen cael cynrychiolaeth briodol er mwyn cael gwybod pa grwpiau yw'r mwyaf haeddiannol.
Sicrhodd Mr John Idris Jones y Cadeirydd fod pob cynllun sy'n cael ei gyflwyno yn cael ei asesu'n drylwyr a bod y pwyllgorau'n edrych yn ofalus ar bob cais.
Pwysleisiodd ei bod yn rhaid i ni gydweithio a denu arian o ffynonellau eraill hefyd i wneud yn siŵr ein bod yn cael cymaint o fudd ag y bo modd, ond y byddai'r

Formatted: Bullets and Numbering

Formatted: Bullets and Numbering

ceisiadau eu hunain yn cael eu trin a'u trafod mewn ffordd gyson er mwyn sicrhau tegwch i bawb.

- c. Ategodd y Cyng. Beryl Williams safbwyntiau'r Cadeirydd, gan ddweud pa mor anodd yw hi i grwpiau a mudiadau bach, yn enwedig gyda chymaint o fiwrocratiaeth y dyddiau hyn. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn credu'n gryf y dylai system fod ar waith i sicrhau cynrychiolaeth briodol.

Dywedodd Mr John Idris Jones bod yr holl geisiadau'n mynd i un ffynhonnell ganolog ac mai Michelle Humphreys sy'n gyfrifol am Ogledd Orllewin Cymru, a'i fod yn sicr y byddai hi'n eu cynrychioli yn y ffordd orau bosib.

- d. Gofynnodd y Cyng. John Richards i John Idris Jones at bwy yr oedd yn cyfeirio wrth sôn am 'gydweithio'.

Atebodd John Idris Jones mai am bobl fel Ian Edwards yr oedd yn sôn. Pwysleisiodd hefyd pa mor bwysig yw gwneud yn siŵr bod ceisiadau'n wirioneddol haeddiannol.

- 12.5 Rhoddodd Mr Keith O'Brien yr wybodaeth ddiweddaraf am yr archif, y straeon digidol a'r Gynhadledd arfaethedig, gyda'r Parc Cenedlaethol (drwy gyfrwng prosiect Bwrlwm Eryri), a Phlas Tan y Bwlch yn barod iawn i gydweithio. Roedd y prosiect Straeon Digidol gyda Phrifysgol Bangor wedi bod yn llwyddiant, a bu Naomi Jones o'r Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda staff i greu cofnodion digidol. Roedd Archifdy Meirionnydd yn awyddus iawn i fwrw ymlaen â hyn. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn siŵr y byddai hyn yn ddiddorol dros ben.

12.5.12.6 Eglurodd y Cyng. Dafydd Watts fod cynrychiolwyr o gynghorau cymuned lleol wedi cyfarfod â Jonathan Jenkin i drafod Cynllun Ynni Dŵr Maentwrog. Ers y cyfarfod buddiol hwnnw, roedd cwestiynau wedi dod i law am gyllid, y les a llygredd yn y llyn, ac roedd Jonathan wedi cynnig dod yn ôl at y grŵp i adrodd yn ôl. Dywedodd y Cadeirydd, o'r hyn yr oedd wedi'i ddeall yn y cyfarfod ym Manceinion, y byddai'r NDA yn dal eu gafael ar yr hyn sydd ganddynt am amser hir eto. Nid yw'n debygol y bydd y llyn yn cael ei werthu, a bydd felly'n aros yng ngofal yr NDA.

13. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 11^{eg} Mehefin 2012.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.

Formatted: Bullets and Numbering